**Oedfa'r Urdd**

**"Croeso'r Crysau Lliwgar"**

**Ar Gyfer Plant Cynradd (*gellir addasu yn ôl y gofyn*)**



Intrada:*'Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun.' (Caneuon Ffydd 139).*

## 1. Cyflwyniad

Arweinydd: Croeso i Wasanaeth yr Urdd 2015 sy'n canolbwyntio eleni ar ymfudo. Gwelodd llawer ohonon ni luniau o bobl yn gadael gwledydd a rhannau cythryblus o'r byd fel Syria, Lybia a gogledd Affrica. Fe wnaethon ni glywed hanesion am blant yn teithio mewn cychod dros Fôr y Canoldir i Ewrop ac eraill yn cerdded gyda theulu a chyfeillion dros gannoedd o filltiroedd. Fe ddaethon nhw yn gwisgo crysau a dillad o sawl lliw. Fe gofiwn y lluniau a'r darluniau.

A ninnau yn dathlu ymdrechion timoedd Cymru mewn crysau coch fe gofiwn un bachgen bach tair blwydd oed o Syria a gollodd ei fywyd ar y daith: Alan Kurdi. Roedd yn ceisio cael cartref newydd a diogel yn Ewrop. Mae'r hanes yn un trist. Mae llawer yn cofio gweld ei luniau.

Wrth weddio, addoli a meddwl am rai sy'n llai ffodus na ni, fe gofiwn hanes Iesu Grist yn mynd ar goll tra'n teithio o Jerwsalem i Nasareth. Fe gofiwn sut yr aeth ei fam a'i dad, Mair a Joseff i chwilio amdano. Fe gofiwn mor llawen yr oedden nhw wedi iddyn nhw ei ganfod yn ddiogel yn y Deml.

## 2. Gweddi Agoriadol

Gweddi (Pawb):

**Arglwydd Iesu, a aeth ar goll ar daith, gweddiwn dros bawb sy'n edrych ar ôl y plant sy'n teithio yn chwilio am ddiogelwch, cartrefi clyd, bwyd i'w fwyta a dillad i'w cadw'n sych a chynnes. Da ni am iddyn nhw fod yn sâff ac yn ddiogel. Amen.**

Emyn: *'Deuaf atat, Iesu.' (Caneuon Ffydd 374).*

Arweinydd: Dyma sut y mae Luc yn adrodd hanes Iesu Grist yn cael ei ganfod yn ddiogel yn y Deml wedi i'w fam a'i dad ei golli ar y daith.

## 3. Darlleniad

Byddai rhieni Iesu yn arfer mynd i Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg bob blwyddyn, a phan oedd Iesu yn ddeuddeg oed aethon nhw yno i'r Ŵyl fel arfer. Pan oedd yr Ŵyl drosodd dyma ei rieni yn troi am adre, heb sylweddoli fod Iesu wedi aros yn Jerwsalem. Roedden nhw wedi teithio drwy'r dydd gan gymryd yn ganiataol ei fod gyda'i ffrindiau yn rhywle. Dyma nhw'n mynd ati i edrych amdano ymhlith eu ffrindiau a'u perthnasau, ond methu dod o hyd iddo. Felly dyma nhw'n mynd yn ôl i Jerwsalem i edrych amdano. Roedd hi'r trydydd diwrnod cyn iddyn nhw ddod o hyd iddo! Roedd wedi bod yn y deml, yn eistedd gyda'r athrawon ac yn gwrando arnyn nhw ac yn gofyn cwestiynau. Roedd pawb welodd e yn rhyfeddu gymaint roedd yn ei ddeall. Cafodd ei rieni y fath sioc pan ddaethon nhw o hyd iddo, a dyma'i fam yn gofyn iddo, "Machgen i, pam rwyt ti wedi gwneud hyn i ni? Mae dy dad a fi wedi bod yn poeni'n ofnadwy ac yn chwilio ym mhobman amdanat ti."



Gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Pam roedd rhaid i chi chwilio? Wnaethoch chi ddim meddwl y byddwn i'n siŵr o fod yn nhŷ fy Nhad?" Ond doedd ei rieni ddim wir yn deall beth roedd yn ei olygu.

Felly aeth Iesu yn ôl i Nasareth gyda nhw a bu'n ufudd iddyn nhw. Roedd Mair yn cofio pob manylyn o beth ddigwyddodd, a beth gafodd ei ddweud. Tyfodd Iesu'n fachgen doeth a chryf. Roedd ffafr Duw arno, ac roedd pobl hefyd yn hoff iawn ohono.

(Luc 2: 41-52 Beibl.net)

## 4. Straeon y Crysau Lliwgar

### Stori 1

Eleni cafwyd gêm bêl droed hynod o bwysig ym maes Dinas Caerdydd. Roedd y stadiwm yn llawn dop ar gyfer y gêm rhwng Cymru ac Israel. Pe byddai Cymru yn ennill fe fyddai ein tîm pêl droed cenedlaethol yn cael mwynhau chwarae gemau terfynol prif gystadleuaeth Ewrop am y tro cyntaf ers amser hir iawn.

Fel yr aeth miloedd i fwynhau gweld Cymru yn chwarae y noson honno fe aeth nifer fawr o ymfudwyr a ffoaduriaid i geisio lle diogel a gwell yng

ngwledydd Ewrop. Fe lwyddodd llawer o ffoaduriaid i gyrraedd yn ddiogel. Er tristwch mawr, fe gollodd rhai eu bywydau ar y daith. Un ohonyn nhw oedd Alan Kurdi. Yn aml, y mae'r plant ar y daith yn gwisgo crysau lliwiau llachar: gwyn, glas, oren, melyn a coch.

Cyn y gêm fawr casglodd nifer o Gristnogion, cefnogwyr pêl droed ac eraill o bob math o gefndiroedd i gofio Alan Kurdi ac eraill a aeth ar ffo. Goleuwyd canhwyllau mewn eglwys leol er mwyn cofio a rhoddwyd crys coch pêl droed Cymru i un gwr ifanc o Syria sy'n byw bellach yng Nghymru fel arwydd o gyfeillgarwch a chroeso.

Wedi'r cofio, fe aeth pawb ymlaen yn ddiogel braf i fwynhau'r gêm. Roedd maes chwarae Dinas Caerdydd yn llawn torf crysau coch llawen Cymru.

Emyn *'Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd.' (Caneuon Ffydd 844).*

## Stori 2



Eleni hefyd aeth nifer o Gristnogion o Brydain ac Iwerddon i ymweld â ffoaduriaid yn croesi'r ffin o Wlad Groeg i Macedonia. Y prynhawn yr oedden nhw yno, teithiodd dros bedair mil o ffoaduriaid dros y ffin. Rhoddwyd diod a bwyd iddyn nhw mewn lle o'r enw Idomeni. Roedd cyfle iddyn nhw ddefnyddio ffonau symudol hefyd oherwydd bod gwirfoddolwyr wedi darparu safle wi-fi.

Fe gymerwyd y ffoaduriaid oddi yno mewn trenau o Idomeni i Serbia gan chwilio am le i fynd ymhellach i ogledd Ewrop drwy wledydd Hwngari neu Croatia. Mae'r ffoaduriaid yn cael eu rhannu mewn grwpiau cyn eu rhoi ar y trenau. Ar y blaen ceir bechgyn a dynion. Wedyn, teuluoedd. Yn y cefn, yn aml, ceir mamau a babanod a'r plant bach.

Yn eu plith y prynhawn hwnnw, cafwyd bachgen a oedd wedi llwyr flino ac yn teimlo'n drist. Roedd yn dawel iawn. Nid oedd am siarad â neb. Gofynnodd un o'r ymwelwyr o Brydain ac Iwerddon iddo os oedd yn mwynhau pêl droed. Roedd yn gwybod llawer am Real Madrid. Roedd yn hoff iawn o Gareth Bale a Christiano Ronaldo. Fe deimlodd lawer yn hapusach wrth siarad am ei hoff gêm a'i hoff dîm.

Ar yr un pryd, fe deithiodd teulu o ffoaduriaid o Syria yn llwyddiannus hyd at y ffin â gwlad Hwngari. Gwelwyd llun Osama Alabed Al-Mohsen o Syria a'i fab saith mlwydd oed, Zaid yn cael ei faglu a'i drin yn wael yn y dorf fawr ar y ffin. Mae Osama yn hyfforddwr pêl droed.

Wedi gweld y lluniau o Osama a Zaid gwelodd Real Madrid yn dda i'w croesawu a'u derbyn i stadiwm byd enwog y Bernabêu. Cyn gêm fawr rhwng Real Madrid a Granada o flaen torf o 81,000 gafaelodd Christiano Ronaldo yn llaw Zaid a'i groesawu yn gynnes fel mascot. Fe gafodd Zaid redeg yn rhydd ac yn llawen yng nghrys gwyn llachar Real Madrid.

Yn aml, y mae straeon nifer o blant sy'n ymfudo i Gymru ac i wledydd eraill yn darfod yn hapus iawn.

Emyn *'Dwylo ffeind oedd dwylo.' (Caneuon Ffydd 372).*

## 5. Ymbil neu Weddi

Arglwydd Iesu, diolch i ti am deithio gyda phlant y byd sy'n ymfudo ac yn ffoi. Dyro gymorth i ni i groesawu eraill ac i fod yn ffrindiau â chyfeillion newydd. Diolch am deuloedd, cyfeillion, athrawon a chymdogion.

Gweddïwn hefyd dros holl blant ein gwlad ac am waith Urdd Gobaith Cymru. Dywedwn ddiolch am y cyfan sy'n cael ei wneud trosom mewn adrannau ac aelwydydd, yn y gwersylloedd, yr eisteddfodau ac ar y meysydd chwarae.

Cofiwn yn arbennig eleni am blant Syria sy'n dioddef oherwydd rhyfel. Diolchwn am heddwch, bwyd, dillad a gofal da. Gweddïwn dros y plant sy'n ffoaduriaid wrth iddyn nhw deithio ar dir, awyr neu fôr. Gweddïwn y bydd iddyn nhw a'u teuluoedd ganfod mannau diogel i fyw ynddyn nhw. Bydded i'r rhai a aeth ar goll gael eu canfod yn ddiogel.

Gweddïwn yn arbennig am heddwch yn ein byd fel y bo i bob plentyn deimlo'n ddiogel, cael llefydd braf i chwarae ac ardaloedd heddychlon i dyfu ynddyn nhw. Clyw ein gweddi yn enw Iesu. Amen.

Emyn *'Nef a daear, tir a mor.' (Caneuon Ffydd 116).*

Arweinydd:

> Cyfoded y ffordd i'ch cyfarfod.
> Bydded y gwynt bob amser i'ch cefn.
> Tywynned yr haul yn gynnes ar eich wyneb.
> Disgynned y glaw yn dyner ar eich meysydd
> a hyd y cyfarfyddwn drachefn
> dalied Duw chwi yng nghledr ei law. **Amen.**

Bendith Wyddeleg draddodiadol